cyllid myfyrwyr cymru
student finance wales

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Lwfans Cynhaliaeth Addysg
**(LCA) 2025/26**

# Gyda LCA **gallech chi gael £40 yr wythnos** i helpu â chostau eich addysg

Mae'r daflen hon yn eich hysbysu a allwch chi gael LCA ac yn egluro sut i wneud cais.

Rydym yn croesawu ceisiadau yn Saesneg. Ni fydd hyn yn arwain at oedi i anfon ymateb.

Cadwch lygad ar:
**www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk/lca**
am ddiweddariadau

## A allwn i gael LCA?

Gallech chi gael LCA os allwch chi ateb **pob** un o'r cwestiynau hyn yn gadarnhaol:

- A fyddwch chi yn 16, 17 neu'n 18 oed ar 31 Awst 2025?
- A ydych chi'n byw yng Nghymru?
- A fyddwch chi'n parhau i astudio'n amser llawn yn yr ysgol neu goleg am o leiaf 12 awr yr wythnos?
- A yw eich cwrs yn parhau am o leiaf 10 wythnos?
- Ai chi yw'r unig berson ifanc sydd mewn addysg amser llawn yn eich cartref **ac** mae incwm eich cartref yn £23,400 neu'n llai?

**neu**

- A oes pobl ifanc eraill yn byw yn eich cartref sy'n gymwys i gael Budd-dal Plant **ac** mae incwm eich cartref yn £25,974 neu'n llai?

**neu**

- Ydych chi'n rhywun sy'n gadael gofal?

## Faint a allwn i gael?

Gallech chi gael £40 yr wythnos, wedi'i dalu'n uniongyrchol i'ch cyfrif banc bob pythefnos. Mae hyn yn seiliedig ar eich presenoldeb yn yr ysgol neu'r coleg.

## Beth sydd angen i mi wneud?

Edrychwch ar ein gwefan am yr holl ddiweddariadau am wneud cais am LCA yn:
**www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk/lca**

Gallwch wneud cais cyn i chi gael eich canlyniadau TGAU neu cyn i chi benderfynu ble i astudio.

Dysgwch fwy yn:
**www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk/lca**

EMW/CSL/2526